**CYNGOR GWYNEDD**

**GORCHYMYN CYNLLUNIO GWLAD A THREF (DATBLYGU CYFFREDINOL A GANIATEIR) 1995**

**(FEL Y'I DIWYGIWYD GAN ORCHYMYN CYNLLUNIO GWLAD A THREF (DATBLYGIAD CYFFREDINOL A GANIATEIR ETC) (DIWYGIO) (CYMRU) 2022)**

**CYFARWYDDYD NA CHAIFF EFFAITH AR UNWAITH O DAN ERTHYGL 4(1) YN CYFYNGU AR DDATBLYGIAD A GANIATEIR YN ARDAL AWDURDOD CYNLLUNIO LLEOL GWYNEDD**

**YN GYMAINT Â BO**

1. Cyngor Gwynedd (“y Cyngor”) yw’r awdurdod cynllunio lleol at ddibenion yr ardal o dir a nodir yn y Cyfarwyddyd hwn.
2. Mae'r Cyngor wedi'i fodloni ei bod yn fuddiol i beidio ag ymgymryd â datblygiad o'r disgrifiad(au) a nodir yn Atodlen 1 isod ar dir yn Sir Gwynedd fel y dangosir wedi'i amlinellu mewn coch ar y cynllun yn Atodlen 2 ("y Tir") oni bai bod caniatâd cynllunio wedi'i roi ar gais a wnaed o dan Ran III Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y’i diwygiwyd).

**FELLY YN AWR** mae'r Cyngor yn unol â'r pŵer a roddwyd iddynt gan Erthygl 4(1) Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (fel y'i diwygiwyd) yn cyfarwyddo drwy hyn na fydd y caniatâd a roddwyd gan erthygl 3 o'r Gorchymyn hwnnw yn gymwys i ddatblygiad ar y Tir hwnnw o'r disgrifiad a nodir yn Atodlen 1 isod.

Gwneir y Cyfarwyddyd hwn o dan erthygl 4(1) o'r Gorchymyn hwnnw a chaiff ei gadarnhau yn unol â'r Gorchymyn, a daw i rym ar 1af o Fedi 2024.

**Atodlen 1 – Cyfyngu ar Hawliau Datblygu a Ganiateir**

Y disgrifiadau a ganlyn o ddatblygiadau y cyfeirir atynt yn Nosbarth I, Rhan 3, Atodlen 2 o'r Gorchymyn hwnnw:

(1) Datblygiad sy'n cynnwys newid defnydd adeilad
- (a) o ddefnydd sy'n disgyn o fewn Dosbarth C3 (tai annedd a ddefnyddir fel unig neu brif breswylfa) o'r Atodlen i Orchymyn Dosbarthiadau Defnydd —
  - (i) i ddefnydd sy'n disgyn o fewn Dosbarth C5 (tai annedd a ddefnyddir heblaw am fel unig neu brif breswylfa) o'r Atodlen honno;
  - (ii) i ddefnydd sy'n disgyn o fewn Dosbarth C6 (llety gosod tymor byr) yr Atodlen honno;
  - (iii) i ddefnydd cymysg sy'n cyfuno defnydd fel tŷ annedd o fewn Dosbarth C3 (tai annedd a ddefnyddir fel unig neu brif breswylfa) gyda defnydd sy'n disgyn o fewn Dosbarth C6 (llety gosod tymor byr) yn yr Atodlen honno;
  - (iv) i ddefnydd cymysg sy'n cyfuno defnydd fel tŷ annedd o fewn dosbarth C5 (tai annedd a ddefnyddir heblaw am fel unig neu brif breswylfa) gyda defnydd sy'n disgyn o fewn Dosbarth C6 (llety gosod tymor byr) o'r Atodlen honno;
- (b) o ddefnydd sy'n disgyn o fewn Dosbarth C5 (tai annedd, a ddefnyddir heblaw am fel unig neu brif breswylfa) o'r Atodlen i Orchymyn Dosbarthiadau Defnydd —
  - (i) nid yw'n cynnwys newidiadau yn yr isadran hon
  - (ii) i ddefnydd sy'n disgyn o fewn Dosbarth C6 (llety gosod tymor byr) yr Atodlen honno;
  - (iii) i ddefnydd cymysg sy'n cyfuno defnydd fel tŷ annedd o fewn dosbarth C5 (tai annedd a ddefnyddir heblaw am fel unig neu brif breswylfa) gyda defnydd sy'n disgyn o fewn Dosbarth C6 (llety gosod tymor byr) o'r Atodlen honno;
  - (iv) i ddefnydd cymysg sy'n cyfuno defnydd fel tŷ annedd o fewn Dosbarth C3 (tai annedd a ddefnyddir fel unig neu brif breswylfa) gyda defnydd sy'n disgyn i Ddosbarth C6 (llety gosod tymor byr) yn yr Atodlen honno;
- (c) o ddefnydd sy'n disgyn o fewn Dosbarth C6 (llety gosod tymor byr) o'r Atodlen honno i Orchymyn Dosbarthiadau Defnydd —
  - (i) nid yw'n cynnwys newidiadau yn yr isadran hon
  - (ii) i ddefnydd sy'n disgyn o fewn Dosbarth C5 (tai annedd a ddefnyddir heblaw am fel unig neu brif breswylfa) o'r Atodlen honno;
  - (iii) nid yw'n cynnwys newidiadau yn yr isadran hon
  - (iv) i ddefnydd cymysg sy'n cyfuno defnydd fel tŷ annedd o fewn dosbarth C5 (tai annedd a ddefnyddir heblaw am fel unig neu brif breswylfa) gyda defnydd sy'n disgyn i Ddosbarth C6 (llety gosod tymor byr) o'r Atodlen honno;
- (d) o ddefnydd cymysg sy'n cyfuno defnyddiau sy'n disgyn o fewn Dosbarth C3 (tai annedd a ddefnyddir fel unig neu brif breswylfa) a Dosbarth C6 (llety gosod tymor byr) o'r Atodlen i Orchymyn Dosbarthiadau Defnydd —
  - (i) nid yw'n cynnwys newidiadau yn yr isadran hon
  - (ii) i ddefnydd sy'n disgyn o fewn Dosbarth C5 (tai annedd a ddefnyddir heblaw am fel unig neu brif breswylfa) o'r Atodlen honno;
  - (iii) i ddefnydd sy'n disgyn o fewn Dosbarth C6 (llety gosod tymor byr) yr Atodlen honno;
  - (iv) i ddefnydd cymysg sy'n cyfuno defnydd fel tŷ annedd o fewn dosbarth C5 (tai annedd a ddefnyddir heblaw am fel unig neu brif breswylfa) gyda defnydd sy'n disgyn o fewn Dosbarth C6 (llety gosod tymor byr) o'r Atodlen honno;
- (e) o ddefnydd cymysg sy'n cyfuno defnyddiau sy'n disgyn o fewn Dosbarth C5 (tai annedd, a ddefnyddir heblaw am fel unig neu brif breswylfa) a Dosbarth C6 (llety gosod tymor byr) o'r Atodlen i Orchymyn Dosbarthiadau Defnydd —
  - (i) nid yw'n cynnwys newidiadau yn yr isadran hon

(ii) i ddefnydd sy'n disgyn o fewn Dosbarth C5 (tai annedd a ddefnyddir heblaw am fel unig neu brif breswylfa) o'r Atodlen honno;
(iii) i ddefnydd sy'n disgyn o fewn Dosbarth C6 (llety gosod tymor byr) yr Atodlen honno;
(iv) Nid yw'n cynnwys newidiadau yn yr isadran hon

**Atodlen 2 – Cynllun o ardal yr Awdurdod Cynllunio Lleol**



Gosodwyd **SÊL GYFFREDIN** )

**CYNGOR GWYNEDD** ar hwn )

ym mhresenoldeb:- )

**Llofnodwr Awdurdodedig**

Ar y dydd o 20XX